# Disgrifiad Swydd Staff Cymorth

| | |
|---|---|
| **Teulu swyddi:** | **Gwaith achos** |
| **Band cyflog:** | **Band 2** |
| **Ystod cyflog**:<br>**(pro rata)** | **£33,233 – £42,727**<br>Bydd y cyflog cychwynnol fel arfer yn cael ei gynnig ar bwynt isaf y band cyflog.  Bydd staff unigol, yn amodol ar berfformiad boddhaol, yn symud i fyny'r raddfa bob blwyddyn ar y dyddiad y gwnaethant ddechrau yn eu swydd nes eu bod yn cyrraedd yr uchafswm graddfa ar gyfer eu band. |

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | **Cydlynydd Gwaith Achos** |
| **Cyfeirnod:** | MBS -122-26 |
| **Swyddfa:** | **Gwyn Williams AS** |
| **Oriau gwaith:** | **37 awr yr wythnos**<br>Efallai y bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd weithio y tu allan i'r oriau gwaith arferol. |
| **Math o benodiad:** | **Tymor Penodol am 6 mis**<br>Fel Aelod o'r Senedd, rwyf yn dal swydd fel cynrychiolydd etholedig. Pan fydd fy nghyfnod fel Aelod o'r Senedd yn dod i ben, bydd y swydd hon yn dod i ben. |
| **Lleoliad:** | **Bydd y gweithiwr wedi'i leoli yn swyddfa'r etholaeth 4 diwrnod yr wythnos, a bydd yn gweithio yn y Senedd 1 diwrnod yr wythnos.**<br>Efallai y bydd yn ofynnol ymweld ag ystod o leoliadau ar draws fy etholaeth, gan gynnwys lleoliadau gwledig, lle mae'n bosibl na fydd trafnidiaeth gyhoeddus ar gael. |

| **Gwybodaeth ychwanegol:** |
|---|
| Rwy'n gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan unrhyw ymgeisydd addas, gan gynnwys pobl â'r nodweddion gwarchodedig a ganlyn (hil, rhyw, anabledd, crefydd/cred, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd, priodas/partneriaeth sifil, beichiogrwydd/mamolaeth neu oedran). |
| Sylwer y gwneir y penodiad yn amodol ar eirdaon a gwiriad diogelwch. |

# Y rôl

| Gwaith achos |
|---|
| Mae swyddi gwaith achos yn gyfrifol am ymdrin ag ystod eang o ohebiaeth a gwaith achos ar lefel sy’n berthnasol i’r band cyflog. Mae hyn yn cynnwys gwneud gwaith dilynol ar ymholiadau a godwyd gan etholwyr unigol neu grwpiau ymgyrchu/lobïo, gohebu ar ran yr Aelod a chyfeirio ymholwyr at ffynonellau priodol o wybodaeth, cyngor ac arweiniad. Bydd deiliaid swyddi yn siarad ag etholwyr sy'n gwneud cwynion a gallant ar eu rhan fynd at sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus perthnasol e.e. y GIG neu adrannau llywodraeth leol i gefnogi'r etholwr i ddatrys problemau a materion a godwyd.<br><br>At hynny, gall trefniadaeth, a chyfranogiad mewn, digwyddiadau ymgysylltu â’r cyhoedd megis cymorthfeydd neu weithgareddau etholaethol eraill fod yn rhan o’r rolau hyn.<br><br>**Dyma nodweddion allweddol rôl gwaith achos:**<br>• Sicrhau bod pob achos yn cael ei symud ymlaen yn brydlon ac yn gymesur ac yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl.<br>• Rheoli llwyth achosion, gyda goruchwyliaeth gefnogol sy'n briodol i lefel y rôl.<br>• Casglu gwybodaeth briodol i lunio adroddiadau ysgrifenedig ffeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.<br>• Cadw cofnodion cywir a chyfredol a thrywyddau archwilio yn unol â gofynion diogelu data.<br>• Cyfathrebu'n effeithiol â phob parti ar lafar ac yn ysgrifenedig.<br>• Ymateb i ystod eang o ohebiaeth gyffredinol, gan ymchwilio i ymholiadau ac ymateb iddynt yn ôl yr angen.<br>• Sicrhau bod gwaith yr Aelod yn cael ei hyrwyddo drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau priodol megis cymorthfeydd neu ddigwyddiadau cymunedol. |
| **Diben y swydd** |
| Bydd **Swyddog Gwaith Achos Band 2** sy’n gweithio i Aelod o’r Senedd yn ymdrin ag achosion mwy cymhleth, yn eiriol dros etholwyr, ac yn ymchwilio i bolisi wrth ddarparu cefnogaeth i etholwyr a'r Aelod. Bydd yn gweithio'n annibynnol ar waith achosion, yn cysylltu ag asiantaethau llywodraeth a chyrff perthnasol eraill yn ôl yr angen. |

# Manyleb y person

| Sgiliau ac ymddygiadau |
|---|
| • Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar cryf ar gyfer drafftio gohebiaeth a chysylltu â rhanddeiliaid.<br>• Y gallu i reoli nifer o achosion a blaenoriaethu materion brys.<br>• Disgresiwn a chyfrinachedd wrth ymdrin â gwaith achos sensitif.<br>• Sgiliau datrys problemau a negodi wrth eiriol ar ran etholwyr.<br>• Disgwylir bod yn hyddysg yn yr adnoddau a'r offer arferol ar gyfer y swydd, er enghraifft pecynnau meddalwedd safonol.<br>• Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig sydd wedi'u datblygu i raddau da.<br>• Sgiliau TG effeithiol, yn enwedig wrth ddefnyddio pecynnau Microsoft fel Word, Outlook ac Excel.<br>• Sgiliau rhyngbersonol effeithiol a'r gallu i ymdrin ag amrywiaeth o bobl mewn sefyllfaoedd a all fod yn heriol.<br>• Dealltwriaeth o'r angen i fynd i'r afael â gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal ac egwyddorion Nolan ar gyfer bywyd cyhoeddus, ac ymrwymiad i'r materion hyn<br>• Y gallu i weithio ar y cyd mewn tîm bach. |
| **Gwybodaeth a phrofiad** |
| • Dealltwriaeth gref o'r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r Aelodau a'r Grwpiau yn gweithredu ynddynt. Mae hyn yn cynnwys fframweithiau'r Senedd (safonau ymddygiad, gwariant ac ati) yn ogystal â fframweithiau ehangach a chyffredinol (dyletswyddau cyfreithiol). Y gallu i roi cyngor gwybodus i'r Aelodau a chydweithwyr ar y materion hynny.<br>• Gwybodaeth gyfreithiol a pholisi yn ymwneud â thai, lles, mewnfudo a gwasanaethau cyhoeddus eraill.<br>• Profiad o fod mewn rôl gymharol yn ymdrin â gohebiaeth gymhleth, dyddiaduron a digwyddiadau a rhedeg swyddfa brysur.<br>• Gwybodaeth am y gyfraith ac arfer da sy'n gysylltiedig â diogelu data a diogelwch gwybodaeth.<br>• Profiad a dealltwriaeth ymarferol o'r gyfraith ac arfer da sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a llesiant, gan gynnwys asesiadau risg, mesurau rheoli, a gwybod pryd i geisio cyngor cymwys.<br>• Profiad o roi mesurau diogelu cymesur ar waith mewn perthynas â phlant ac oedolion sy'n agored i niwed. |

| **Meini prawf dymunol** |
| --- |
| • Dealltwriaeth o faterion cyfoes a phynciau sy'n berthnasol i Gymru a'r ardal leol, a diddordeb yn system wleidyddol Cymru.<br>• Yn arddel amcanion a gwerthoedd y blaid.<br>• Mae trwydded yrru lawn, gyfredol y DU, ynghyd â mynediad at gerbyd sydd wedi'i yswirio at ddibenion gwaith. |
| **Cymwysterau** |
| • Y gallu i ddangos gwybodaeth neu brofiad o ystod o weithdrefnau gwaith yn seiliedig ar brofiad gwaith perthnasol a/neu gymhwyster galwedigaethol – e.e. NVQ lefel 3 neu 4 neu gymhwyster cyfatebol mewn pwnc perthnasol.<br>• Tystiolaeth o sgiliau rhifedd a llythrennedd e.e. TGAU Cymraeg / Saesneg a Mathemateg (neu gymwysterau cyfatebol) Gradd C neu uwch, neu brofiad arall addas. |
| **Sgiliau iaith** |
| • Dymunol / heb fod yn hanfodol: Y gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. |

# Prif ddyletswyddau

| Rheoli gwaith achos a chymorth i etholwyr |
|---|
| • Ymdrin ag achosion cymhleth a sensitif, gan ddarparu cymorth ac atebion teilwredig i etholwyr. Gall hyn gynnwys cefnogi etholwyr i ymgyrchu yn erbyn y materion a nodwyd ganddynt drwy hysbysu a rhoi cyngor mewn perthynas â'r broses ddeddfwriaethol, hawliau ac ati.<br>• Ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â materion polisi neu faterion cyfreithiol sy'n effeithio ar etholwyr ac uwchgyfeirio pryderon brys i'r Aelod.<br>• Drafftio ac anfon llythyrau manwl, adroddiadau a chrynodebau o achosion ar ran yr Aelod.<br>• Cynnal a chadw cofnodion achosion gan ddefnyddio systemau rheoli gwaith achos, gan sicrhau cydymffurfiaeth â deddfau diogelu data.<br>• Cynllunio a rheoli llwyth gwaith personol yn unol â gofynion yr Aelod. |
| **Eiriolaeth a chysylltu â chyrff llywodraeth** |
| • Cyfathrebu ag adrannau llywodraeth, cynghorau lleol ac asiantaethau i gefnogi etholwyr i ddatrys problemau.<br>• Uwchgyfeirio achosion i wasanaethau ombwdsmyn, gweinidogion, neu bwyllgorau'r Senedd pan fo angen.<br>• Datblygu dealltwriaeth gref o faterion lles, tai, mewnfudo, gofal iechyd a chyfreithiol er mwyn cefnogi etholwyr yn well.<br>• Dilyn datblygiadau mewn deddfwriaeth, ym mhenderfyniadau llywodraeth leol ac mewn polisïau cenedlaethol i lywio gwaith achos.<br>• Cyfrannu at friffiau polisi a pharatoi gwybodaeth gefndir ar gyfer gwaith seneddol, dadleuon neu areithiau'r Aelod. |
| **Goruchwyliaeth a mentora** |
| • Cefnogi gweithwyr achos iau, gan roi arweiniad ynghylch trin achosion a gweithdrefnau gweinyddol.<br>• Goruchwylio hynt achosion blaenoriaeth uchel a sicrhau ymatebion amserol. |
| **Ymgysylltu â'r cyhoedd a chysylltu cymunedol** |
| • Mynd i gymorthfeydd yr Aelod, ymgysylltu'n uniongyrchol ag etholwyr, cymryd nodiadau manwl, a nodi camau dilynol.<br>• Cynrychioli'r Aelod mewn digwyddiadau cymunedol, cyfarfodydd lleol ac ymweliadau yn yr etholaeth.<br>• Meithrin a chynnal cysylltiadau ag elusennau lleol, grwpiau eiriolaeth, a darparwyr |

| |
|---|
| gwasanaethau cyhoeddus. |
| **Rhwymedigaethau yn y gweithle** |
| **Diogelu data / diogelwch gwybodaeth:**<br>• Cydlynu gweithgareddau a darparu canllawiau i alluogi'r Aelod i gydymffurfio â'i rwymedigaethau sy'n ymwneud â diogelu data a diogelwch gwybodaeth yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol.<br>**Iechyd, diogelwch a llesiant:**<br>• Cefnogi a chynghori'r Aelod o ran cydymffurfio â'i rwymedigaethau sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a llesiant, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol.<br>**Diogelu:**<br>• Cydlynu gweithgareddau a darparu canllawiau i alluogi'r Aelod i gydymffurfio â'i rwymedigaethau o ran diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol. |
| **Materion eraill** |
| • Gweithredu o fewn y gyfraith a'r fframweithiau rheoleiddio y mae'r Aelodau a'r Grwpiau yn gweithredu o'u mewn, gan gynnwys fframweithiau'r Senedd (safonau ymddygiad, gwariant ac ati) a fframweithiau ehangach a chyffredinol (dyletswyddau cyfreithiol).<br>• Cyflawni dyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r band hwn, yn ôl yr angen, i gefnogi'r Aelod. |